

CABINET

Dyddiad y cyfarfod	19 Mehefin 2018
Testun yr Adroddiad	Gweledigaeth a Strategaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru: Cytundeb Llywodraethu
Aelod Cabinet	Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Adfywio
Awdur yr Adroddiad	Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu)
Math o Adroddiad	Strategol

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mabwysiadodd y Cabinet y *Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Fe wnaeth cabinet y pum cyngor arall sy'n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadu'r strategaeth hefyd.

Hysbyswyd y Cabinet mewn ail adroddiad ym mis Chwefror 2017 bod Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth yn Gais Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chyflwyno pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Ar y pryd, mabwysiadwyd model cydbwyllgor statudol gan yr holl bartneriaid, fel yr un gorau ar gyfer llywodraethu'r gwaith ar y Cais.

Mae'r Pwyllgor rhanbarthol wedi mabwysiadu'r teitl Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan y cyn gorff ymgynghorol rhanbarthol o'r un enw. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar gyfer cam cyntaf y gwaith rhanbarthol i'w fabwysiadu. Defnyddir y term Cytundeb Llywodraethu yn lle Cytundeb Rhwng Awdurdodau gan fod aelodau'r bartneriaeth yn mynd y tu hwnt i awdurdodau lleol yn unig. Bydd y cyn Fwrdd Uchelgais Economaidd yn dod yn grŵp rhanddeiliad gydag aelodaeth o gynrychiolwyr a ddewisir o'r sectorau twf a sylfaen sy'n ffurfio'n heconomi rhanbarthol.

Mae angen Cytundeb Llywodraethu i ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a chyflwyno pwerau i wneud penderfyniadau i'r Bwrdd o fewn cyfyngiadau penodol. Mae gan y Bwrdd ddau gam o ddatblygu'r Cais i'w rheoli. Y cam cyntaf, a fydd yn arwain at gytuno ar Gynllun Twf gyda'r Llywodraethau, yw'r cam paratoi a datblygu'r Cais. Bydd y cam hwn yn para tan ganol 2019. Yr ail gam, wedi cytuno ar y Cais, a fydd yn rhedeg o ganol 2019, fydd y cam gweithredu a chyflawni'r Cais. Mae'r Cytundeb Llywodraethu hwn yn ymdrin â'r cam cyntaf. Bydd ail Gytundeb Llywodraethu mwy

cynhwysfawr yn cael ei ddrafftio ar gyfer yr ail gam.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno manylder cynnwys y Cais Cynllun Twf sy'n dal i ddatblygu, gan mai ei brif bwrpas yw cyflwyno'r Cytundeb Llywodraethu i'w fabwysiadu. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cytuno at Gynigiad Strategol ar gyfer y Cais yn ei gyfarfod nesaf (15 Gorffennaf) a bydd hwn ar gael i aelodaeth y cyrff partner unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

ARGYMHELLIAD

1.	Nodir a chroesawir y cynnydd gyda datblygu'r Cais Cynllun Twf.
2.	Argymhellir y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf i'r Cyngor i'w fabwysiadu.
3.	Y cyflwynir drafft terfynol o Gais y Cynllun Twf i'r Cyngor i'w adolygu a chytuno iddo ym mis Medi/Hydref cyn y cam o gyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.

MANYLION YR ADRODDIAD

1.00	CYNNYDD WRTH DDATBLYGU CAIS Y CYNLLUN TWF
1.01	Mae Cais Cynllun Twf yn gynnig ffurfiol am fuddsoddiad gan y Llywodraeth a chyflwyno pwerau datganoledig. Mae gofyn i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol er mwyn cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, law yn llaw â'r Llywodraeth(au), mewn clustnodiadau cyfalaf, rhannu mewn benthyca cyfalaf, defnyddio tir ac asedau ac wrth ddarparu adnoddau capasiti proffesiynol a chapasiti'r prosiect. Bydd pob cais wedi trafod amcanion a thargedau. Ar gyfer Gogledd Cymru, Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae'r broses bidio yn cynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru.
1.02	Ers yr adroddiad blaenorol i'r Cabinet, mae model llywodraethu o gydbwyllgor statudol wedi'i sefydlu ar 'ffurf gysgodol'. Golyga 'ffurf gysgodol' fod y Pwyllgor yn cyfarfod ac yn gweithredu drwy gytundeb ffurfiol yr holl bartneriaid ar ffurf baratoadol ond heb y capasiti i wneud penderfyniadau rhwymol ar ran y partneriaid. Mae angen Cytundeb Rhwng Awdurdodau i ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a chyflwyno pwerau i wneud penderfyniadau i'r Bwrdd o fewn cyfyngiadau penodol. Mae gan y Bwrdd ddau gam o ddatblygu'r Cais i'w rheoli. Y cam cyntaf, a fydd yn arwain at gytuno ar Gynllun Twf gyda'r Llywodraethau, yw'r cam paratoi a datblygu'r Cais. Bydd y cam hwn yn para tan ganol 2019. Yr ail gam, wedi cytuno ar y Cais, a fydd yn rhedeg o ganol 2019 ac am sawl blwyddyn, fydd y cam gweithredu a chyflawni'r Cais.
1.03	Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r teitl Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan y cyn gorff ymgynghorol rhanbarthol o'r un enw. Aelodau llawn y Bwrdd yw'r chwe awdurdod unedol o fewn y rhanbarth. Mae Prifysgol Bangor,

	Prifysgol Wrecsam-Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai (Coleg) a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn aelodau ymgynghorol o'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar gyfer cam cyntaf y gwaith rhanbarthol i'w fabwysiadu. Defnyddir y term Cytundeb Llywodraethu yn lle Cytundeb Rhwng Awdurdodau gan fod aelodau'r bartneriaeth yn mynd y tu hwnt i awdurdodau lleol yn unig.
1.04	Bydd y cyn Fwrdd Uchelgais Economaidd yn dod yn grŵp rhanddeiliad gydag aelodaeth o gynrychiolwyr o'r sectorau twf a sylfaen sy'n ffurfio'n economi rhanbarthol. Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn grŵp cyfeirio pwysig i fewnbynnu cysyniadau a chynigion ar gyfer twf rhanbarthol, darparu cyngor a thystiolaeth arbenigol i hysbysu'r penderfyniadau a wneir, a dal y Bwrdd i gyfrif am y cynnydd gyda'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol a Chais y Cynllun Twf. Gwahoddir Cadeirydd y grŵp rhanddeiliaid i fod yn aelod ymgynghorol o'r Bwrdd newydd ar ei ddisgresiwn. Bydd y berthynas ffurfiol gyda'r grŵp rhanddeiliaid, sydd yn y broses o gael ei ffurfio, yn cael ei hymgorffori yn yr ail Gytundeb Llywodraethu.
1.05	Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno manylder cynnwys y Cais Cynllun Twf, sy'n dal i ddatblygu, gan mai ei brif bwrpas yw cyflwyno'r Cytundeb Llywodraethu i'w fabwysiadu. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cytuno ar Gynigiad Strategol ar gyfer y Cais yn ei gyfarfod nesaf (15 Gorffennaf) a bydd hwn ar gael i aelodaeth y cyrff partner unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Mae pob un o'r chwe chyngor yn cael ei annog i gynnal cyfarfodydd briffio mewnol gyda'u haelodau er mwyn eu diweddarau gyda datblygiadau ac i geisio eu barn fel rhan o'r ymgynghori a'r ymgysylltu parhaus.
1.06	Mae Cais y Cynllun Twf sy'n datblygu yn seiliedig ar y prif themâu rhaglen a ganlyn:- <ul style="list-style-type: none"> • Tir ac eiddo • Ynni • Technoleg ac arloesedd • Twf busnes rhanbarthol • Sgiliau a chyflogaeth • Canolfannau rhagoriaeth sgiliau • Cysylltedd digidol • Trafnidiaeth strategol
2.00	Y MODEL LLYWODRAETHU A'R CYTUNDEB LLYWODRAETHU
2.01	Mabwysiadodd holl bartneriaid gwaith Cais y Cynllun Twf y model llywodraethu dewisol yn 2017 a bellach mae'n fodel sydd wedi ei hen sefydlu ac sydd ar y trywydd cywir i gyflwyno Cais i'r Llywodraethau er cytundeb cychwynnol o fewn 2018. Mae Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu ar gyfer y cam cyntaf hwn o Gais y Cynllun Twf i'w fabwysiadu gan holl bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cytundeb Llywodraethu (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y GA) wedi'i ddatblygu gan y rhwydwaith Penaethiaid Cyfreithiol rhanbarthol a chyda chyngor arbenigol ac annibynnol yr ymgynghorwyr cyfreithiol, Pinsents. Mae nodweddion allweddol y GA wedi'u crynhoi yn y paragraffau a ganlyn.

2.02	<p>Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ei hun yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol (yr arweinyddion), y ddwy brifysgol a'r ddau goleg addysg bellach, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Dros amser, caiff y Bwrdd ei gefnogi gan nifer o is-fyrddau arbenigol. Bydd yr is-fyrddau hyn yn ehangu amrediad y rhanddeiliaid sydd ynghlwm â'r model llywodraethu. Atodir adlewyrchiad diagramatig o'r Bwrdd a'r is-fyrddau yn Atodiad 2. Mae Cylch Gorchwyl drafft wedi'i baratoi ar gyfer y Bwrdd a'r is-fyrddau sy'n ymdrin ag aelodaeth; cadeirio; rolau, swyddogaethau, cyfrifoldebau a phwerau; siarad a gwneud penderfyniadau.</p>
2.03	<p>Cyd-bwyllgor gweithredol yw'r model llywodraethu sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y bwrdd h.y. cyd-bwyllgor o bob cabinet. Nid yw'r model hwn yn ddelfrydol ar gyfer y ffordd y mae'r bwrdd yn dymuno gweithredu, er enghraifft ni all y partneriaid nad ydynt yn awdurdodau lleol fod yn aelodau gyda phleidlais o gyd-bwyllgor gweithredol, ond y model hwn yw'r un gorau sydd ar gael dan y ddeddfwriaeth bresennol. Er mwyn gweithio o amgylch y cyfyngiadau hyn, cynigir dull gweithredu lle bydd y Bwrdd yn ceisio cyflawni consensws cyn cymryd pleidlais ffurfiol. Disgwylir i fodel deddfwriaethol sy'n caniatáu cyfranogiad llawn gan yr holl bartneriaid gael ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ei Fil Diwygio Bil Llywodraeth Leol yn ddiweddarach eleni.</p>
2.04	<p>Mae'r GA yn cynnwys yr hawl i unrhyw ddau barti ofyn i fater gael ei ailystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Byddai hyn yn caniatáu cyfnod 'cnoi cil' a byddai'n rhoi mwy o amser i'r Bwrdd ddarganfod datrysiad i benderfyniadau heriol. Mae'r ddarpariaeth yn atgyfnerthu'r bwriad i weithio drwy gonsensws, ac mae'n gwarchod y partïon hynny nad oes ganddynt bleidlais ffurfiol.</p>
2.05	<p>Bydd rhai prif feysydd o wneud penderfyniad, a elwir yn 'faterion a gedwir yn ôl', y tu allan i awdurdod dirprwyedig y Bwrdd. Byddai angen i benderfyniad arfaethedig y Bwrdd yn achos mater sydd wedi'i gadw'n ôl gael ei ystyried a'i gytuno yn gyntaf gan bob corff partner i'r Bwrdd. Yn achos y chwe chyngor, byddai hyn yn gofyn am benderfyniad ffurfiol gan y Cabinet neu'r Cyngor. Mae'r rhestr o'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar swyddogaethau i'w rhoi i'r Bwrdd; • Cytuno ar gyfraniadau cyllideb blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'r awdurdod; • Ymrwymadau buddsoddi a benthyca a lefelau amlygiad i risg; a • Clustnodi tir ac asedau eraill i'w pŵlio.
2.06	<p>I'r chwe chyngor, golyga hyn y bydd y penderfyniadau pwysicaf yn cael eu gwneud yn lleol, gyda gwaith y Bwrdd yn derbyn peth cyfeiriad gan yr aelodaeth ehangach. Mae darpariaethau cyfansoddiadol o'r math yma yn ffynhonnell o sicrwydd i aelodau, ac maent yn parchu ac yn rhoi gwerth ar rôl y swyddogaeth trosolwg a chraffu gyffredinol. Yn ystod y cam cyntaf hwn o waith ar y Cais, cynigir y dylai cynigion y Bwrdd ar gyfer y Cais fod yn amodol ar graffu lleol drwy'r pwyllgor trosolwg a chraffu mwyaf priodol ym mhob cyngor, yn hytrach na chyflwyno rhyw ffurf ar graffu rhanbarthol y</p>

	gellid ei ystyried yn rhywbeth anghysbell.
2.07	Mae gan y Bwrdd y capasiti i greu Is-fyrddau a allai naill ai gael sail statudol neu sail ymgynghorol, yn dibynnu ar eu swyddogaethau, eu pwerau a'u haelodaeth. Y Byrddau cyntaf i'w creu yw'r Is-fwrdd Trafnidiaeth a'r Is-fwrdd Cyflawni Digidol. Bydd y ddau yma yn cael eu cyfansoddi'n ffurfiol fel is-bwyllgorau, ar sail statudol, fel bod ganddynt y gallu i gael pwerau wedi'u dirprwyo iddynt. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol bresennol, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adrodd i Lywodraeth Cymru ac i'r Bwrdd fel Is-fwrdd ymgynghorol. Bydd y gyfres o Is-fyrddau yr argymhellir bod ei hangen ar gyfer ail gam Cais y Cynllun Twf yn cael ei hymgorffori i'r ail Gytundeb Llywodraethu.
2.08	Mae'r GA hefyd yn cynnwys ymrwymïadau dwyochrog rhwng yartneriaid a pha bynnag gyngor a ddewisir i fod yn awdurdod lletya i'r Bwrdd, megis atebolrwydd wedi'i rannu ar gyfer costau cyflogaeth. Bydd yr holl bartneriaid yn llofnodi'r GA er mwyn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch hyd a lled eu hymrwymïadau a'u rhwymedigaeth.
2.09	Mae'r Cytundeb Llywodraethu a gyflwynir yma ar gyfer cam cyntaf gwaith y Bwrdd yn unig. Bydd ail Gytundeb Llywodraethu mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar gyfer yr ail gam - gweithredu a chyflawni'r Cais - yn gynnar yn 2019.
3.00	CAMAU NESAF DATBLYGU A CHYMERADWYO CAIS Y CYNLLUN TWF
3.01	Erbyn hyn, mae Cais y Cynllun Twf ar gam pellach ei ddatblygiad gyda chynnwys y Cais ar fin cael ei flaenoriaethu yn unol â (1) dewis ac uchelgais rhanbarthol (2) cyngor anffurfiol gan y Llywodraeth ar raglenni a phrosiectau a allai fod yn gymwys am gefnogaeth ganddi a (3) asesiadau o achosion busnes.
3.02	Bydd Cais y Cynllun Twf yn symud drwy ddau gam cymeradwyo. Yn gyntaf, bydd Cytundeb Penawdau'r Telerau ar y cynnwys strategol ar gyfer datblygiad pellach ac, yn ail, cytundeb terfynol o'r cynnwys manwl wedi'i gefnogi gan dystiolaeth a dadansoddiad o'r model busnes pum achos llawn a therfynol. Ein nod yw cyrraedd Cytundeb Penawdau'r Telerau yn yr hydref eleni, a'r cytundeb terfynol erbyn blwyddyn ariannol newydd 2019/20.
3.03	Cyflwynir drafft terfynol Cais y Cynllun Twf i bartneriaid y Bwrdd a'r sawl sy'n llofnodi'r Cytundeb Llywodraethu i'w adolygu a chytuno iddo ym mis Medi/Hydref cyn y cam o gyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.
3.04	Nid y Cynllun Twf yw'r unig ymyrraeth i gefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth a'r strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn isadeiledd trafniadaeth yn y rhanbarth law yn llaw â'r Cais, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, ac mae buddsoddiadau eraill megis agor safle Porth y Gogledd ar gyfer mewnffuddsoddi a'r Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdyn. Mae'r cynllun Growth Track 360 ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd ar draws ffiniau, yn symud ymlaen ar lefel Llywodraeth y DU. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Masnachfreintiau newydd Cymru a'r Gororau gyda gwelliannau i isadeiledd a gwasanaeth.

	Mae'n bosib y gellir negodi rhaglenni buddsoddi pellach ar wahân. Mae undod y rhanbarth y tu ôl i'r weledigaeth a'r strategaeth sydd wedi'u mabwysiadu yn ffactor pwysig wrth gael pwrpas, hygrededd a dylanwad wrth negodi.
--	--

4.00	GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU
4.01	Mae Cais Cynllun Twf yn fuddsoddiad mawr mewn rhanbarth gan Lywodraethau gyda risgiau a buddion a rennir gyda'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y rhanbarth. Mae capasiti buddsoddi yn ystyriaeth fawr wrth ddylunio'r Cais. Adroddir am oblygiadau cost llawn y Cytundeb Twf posib ar y cam Penawdau'r Telerau.

5.00	YMGYNGHORIADAU SYDD EU HANGEN / SYDD WEDI'U CYNNAL
5.01	Mae ymgynghori eang wedi bod ar draws y sectorau wrth ddatblygu'r Cais a'i gynnwys blaenoriaeth. Mae partneriaid y Cais wedi cael eu hannog i gynnal cyfarfodydd briffio mewnol gyda'u haelodaeth eu hunain. Mae ymgysylltiad gyda'r sector preifat wedi bod yn barhaus, yn bennaf drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Mae ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn digwydd ar lefel Ysgrifennydd y Cabinet ac Ysgrifennydd Gwladol.

6.00	RHEOLI RISG
6.01	Bydd asesiad risg llawn o'r Cynllun Twf posib yn cael ei adrodd ar y cam Penawdau'r Telerau. Mae dadansoddi risg wedi'i adeiladu i mewn i'r model achos busnes ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau sy'n rhan o ddatblygu'r Cais

7.00	ATODIADAU
7.01	Atodiad 1: Cytundeb Llywodraethu 1 Atodiad 2: Diagram o'r Model Llywodraethu

8.00	RHESTR O'R DOGFENNAU CEFNDIR Y GELLIR CAEL MYNEDIAD ATYNT
8.01	Gweledigaeth a strategaeth ranbarthol; Papurau rhaglen y Bwrdd Cysgodol.

9.00	GEIRFA
9.01	Cytundeb Rhwng Awdurdodau neu Gytundeb Llywodraethu – termau y gellir eu cyfnewid am gytundeb cyfreithiol rhwng partneriaid cydweithredol i reoleiddio gweithio'n gyfansoddiadol a rhannu risg a buddion.

Cynllun Twf – arian a ddarperir i Bartneriaethau Menter Leol yn Lloegr, a phartneriaethau awdurdod lleol yng Nghymru, ar gyfer rhaglenni ymyraethau economaidd sy'n rhoi buddion i'r rhanbarth a'i economi.

Cytundebau Datganoli– nid oes fformat penodedig iddynt, ond maent yn cynnwys datganoli pwerau a chyllidebau er mwyn cyflawni rhaglenni a gwasanaethau ymyrraeth ledled y rhanbarth.

Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy – corff cynrychioladol yn seiliedig ar aelodaeth o'r sectorau preifat a busnes yn isranbarth Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

Cynghrair Merswy a Glannau Dyfrdwy – partneriaeth o gynghorau Sir y Fflint, Wrecsam, Wirral a Gorllewin Swydd Caer a Chaer, gyda'r sector preifat a'r sefydliadau addysg, yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cael twf economaidd cynaliadwy yn y rhanbarth trawsffiniol.

Model Busnes Pum Achos – dull sydd wedi'i sefydlu ar gyfer gwneud achosion busnes i gefnogi cynigion am fuddsoddiad a weithredir dan ganllawiau'r Trysorlys.